# Cartrefi Caerffili

Gaeaf 2018 Rhifyn 12

## Cyhoeddi enillwyr gwobrau Cartrefi Caerffili



Y Cynghorydd Lisa Phipps, Tomos Hooper, Ceri Hooper (Valley Daffodils) a David Pattison (Robert Price).

Ym mis Medi, cynhaliom ein digwyddiad dathlu Cartrefi Caerffili, lle cyhoeddwyd enillwyr y gystadleuaeth garddio i denantiaid flynyddol, a Gwobrau Trawsnewid Bywydau a Chymunedau.

Noddwyd y noson gan Robert Price Builders' Merchants a'u cyflenwyr: Seren Electrical, Nuaire, 3D Flooring a Rixonway Kitchens. Robert Price yw'r unig ffynhonnell partner cyflenwi ar gyfer ein rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru gwerth £220 miliwn.



Y Cynghorydd Lisa Phipps, Deanne Jurich a Clive Davies (Is-gadeirydd Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili).

### ENILLWYR A'R RHEINY YN YR AIL A'R TRYDYDD SAFLE:

**Y FASGED GROG / POTYN / CYNHWYSYDD ORAU:**
Enillydd - Bill Rothwell, Markham
Ail safle - Colleen Phillips, Pont-y-waun
Trydydd safle - Steve Perkins, Tredegar Newydd

**YR ARDD ORAU:**
Enillydd - Deanne Jurich, Rhydri
Ail safle - Sandra Williams, Abercarn
Trydydd safle - Bill Rothwell, Markham

**GARDD GYMUNEDOL TAI LLOCHES ORAU:**
Enillydd - Maesteg, Pentwyn-mawr
Ail safle - Tŷ Melin, Crospenmaen
Trydydd safle - Cwrt y Cae Uchaf, Trecelyn

**GWOBR GWEITHIWR**
Enillydd - Tîm Tai Pobl Hŷn

**GWOBR GRŴP**
Enillydd - Valley Daffodils
Ail safle - Cymdeithas Trigolion Cwrt Trefelyan

**GWOBR UNIGOL**
Enillydd - Mike Barugh, Pentwyn-mawr
Ail safle - Gary Pritchard, Ynys-ddu
Ail safle - Sandra Jones, Pen-yr-heol

yourccbchomes
Dilynwch ni ar Twitter.

yourcaerphillyhomes
'Hoffwch' ni ar Facebook.

Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

14898



# Mae'r Hawl i Brynu yn dod i ben

Bydd yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael yn dod i ben ar gyfer holl denantiaid cynghorau a chymdeithasau tai yng Nghymru ar 26 Ionawr 2019. Derbyniodd y Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Cydsyniad Brenhinol, a daeth yn Ddeddf Cynulliad Cymru ar 24 Ionawr 2018.

Fe wnaeth yr Hawl i Brynu, yr Hawl i Gaffael a'r Hawl i Brynu a Gadwyd ddod a "chartrefi newydd" i ben ar 24 Mawrth 2018. Mae "cartref newydd" yn un sydd heb gael ei osod fel tŷ cymdeithasol yn ystod y chwe mis cyn 24 Mawrth 2018, er enghraifft, eiddo newydd ei adeiladu neu gartref sydd wedi cael ei gaffael gan y landlord yn ddiweddar. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili unrhyw eiddo sy'n dod o dan y diffiniad hwn.

Mae gan denantiaid diogel cymwysedig hawl i brynu eu cartref os ydynt wedi bod yn denant y sector cyhoeddus ers pum mlynedd. Gall y cyfnod hwn hefyd gynnwys amser a dreuliwyd mewn llety penodol a ddarparwyd gan y lluoedd arfog.

Rydym ni'n cynghori tenantiaid, os ydynt yn gymwys i brynu eu cartrefi, y bydd angen iddyn nhw gyflwyno eu cais erbyn 25 Ionawr 2019. Ni dderbynnir unrhyw gais a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

Cewch fwy o wybodaeth am yr Hawl i Brynu a dogfen Llywodraeth Cymru sy'n esbonio'r ddeddfwriaeth 'Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018' ar wefan y Cyngor, www.caerffili.gov.uk/Tai. Gall tenantiaid ddarganfod a ydynt yn gymwys ar gyfer yr Hawl i Brynu trwy ffonio'r cyngor ar 01443 864221, neu ebostiwch cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk.

# Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - ffaith neu gelwydd

**Nid oes digon o arian ar ôl i gwblhau'r rhaglen**

**CELWYDD** - rydym ni'n gweithredu cynllun busnes sy'n cynnwys costau ar gyfer cyflwyno SATC i bob cartref y mae'r Cyngor yn berchen arno ym Mwrdeistref Sirol Caerffili erbyn 2020.

**Ni fydd pob cartref yn cael pob gwelliant.**

**FFAITH** - bydd pob cartref yn cael ei asesu i bennu pa waith sydd angen ei gyflawni i sicrhau ei fod yn cyrraedd SATC, a bydd angen mwy ar rai cartrefi na rhai eraill. Fodd bynnag, cyflawnir elfen o waith ar bob eiddo fel rhan o'r rhaglen.

**Ni fydd y tenantiaid hynny sydd â chartrefi ar ddiwedd y rhaglen yn cael yr un gwelliannau â'r rheiny ar y dechrau.**

**CELWYDD** - mae SATC yn cynnwys nifer o elfennau sy'n rhaid eu cwblhau er mwyn i bob cartref gydymffurfio. Mae hyn yn golygu y bydd pob cartref yn cael yr holl waith sydd ei angen arno i gyrraedd SATC ni waeth ble y mae ar y rhaglen.

# Sut i gysylltu â'ch swyddfa tai lleol

**SWYDDFA DAI ARDAL CWM RHYMNI UCHAF**
Tŷ Gilfach, Stryd William, Gilfach, Bargod, CF81 8ND
**Ffôn: 01443 873535**
E-bost: sdacwmrhymniuchaf@caerffili.gov.uk

**ARDALOEDD SYDD WEDI'U CYNNWYS:** Fochriw, De Rhymni, Deri, Bargod, Cascade, Gelligaer, Maes Mabon, Nelson, Penpedairheol, Pen-y-bryn, Ystâd Gilfach, Gilfach Isaf, Cefn Hengoed, Hengoed, Gogledd Rhymni, Y Drenewydd, Pontlotyn, Aberbargod, Tredegar Newydd, Treffilip, Brithdir, Abertyswg, Tirphil, Maes-y-cwmwr, Tir-y-berth, Ystrad Mynach, Pen-yr-heol, Thomasville, Tŷ Isaf, Tŷ Nant, Pwll-y-pant a Llanbradach.

---

**SWYDDFA DAI ARDAL Y CYMOEDD DWYREINIOL**
Uned 5, Lle'r Farchnad, Coed Duon, NP12 1AU
**Ffôn: 01495 235974**
E-bost: sdacwmdwyreiniol@caerffili.gov.uk

**ARDALOEDD SYDD WEDI'U CYNNWYS:** Argoed, Britannia, Trelyn, Markham - Llwyncelyn, Pengam, Trelyn Uchaf, Cefn Fforest, Trem Deg, Gerddi Twyn, Penllwyn Isaf, Penllwyn Uchaf, Maes-y-ffynnon, Coed Duon, Tŷ-Sign Isaf, Tŷ-Sign Uchaf, Rhisga, Pont-y-meistr, Croespenmaen, Oakdale, Gelligroes, Morrisville, Pont-y-waun, Treowen, Trinant, Wattsville, Ynys-ddu - Cwmfelin-fach, Pentwyn-mawr, Abercarn, Crosskeys, Cwmcarn, yr Uwch Ddol, Llanfach, Trecelyn, Cefn-y-pant Isaf, Cefn-y-pant Uchaf, Persondy a Westend.

---

**SWYDDFA DAI CYMDOGAETH PARC LANSBURY**
45 Cwrt Attlee, Parc Lansbury, Caerffili, CF83 1QU
**Ffôn: 02920 860917**
E-bost: sdcparclansbury@caerffili.gov.uk

**ARDALOEDD SYDD WEDI'U CYNNWYS:** Abertridwr, Bryncenydd, Caerbragdy, Parc Churchill, Heol Claude, Trecastell, Nantddu, Senghenydd, Waunfach, Parc Lansbury a Pharc Porset.

---

**SWYDDFA DAI CYMDOGAETH GRAIG-Y-RHACA**
Gerddi Grays, Graig-y-rhaca, Machen, CF83 8TW
**Ffôn: 02920 853050**
E-bost: sdcgraig-y-rhaca@caerffili.gov.uk

**ARDALOEDD SYDD WEDI'U CYNNWYS:** Bedwas, Machen, Rhydri, Trecenydd, Tretomos a Graig-y-rhaca.

---

# Paratoi ar gyfer y gaeaf - pibelli cyddwyso wedi rhewi

Mae pibell gyddwyso yn cludo cyddwysiad o'ch boeler i'ch draen tu allan. Yn ystod cyfnodau hirfaith o dywydd hynod o oer, gall cyddwysiad yn y bibell rewi, sy'n arwain at rwystr, a fydd yn achosi i'r boeler fethu gweithio.

Dyma ychydig o arweiniad ynghylch beth i'w wneud os bydd hyn yn digwydd. Canllaw yn unig yw hwn - peidiwch â rhoi cynnig ar hyn os yw'r amodau'n wael neu os nad ydych chi'n teimlo'n gymwys i wneud. Yn lle hynny, ffoniwch ein tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai ar 01443 864886 neu 01443 875500 y tu allan i oriau swyddfa.

## Sut i ddadmer y bibell?

**1. Cadarnhau bod y bibell gyddwyso wedi rhewi**

Os yw eich boeler yn methu gweithio oherwydd bod y bibell gyddwyso wedi rhewi, bydd cod nam fel arfer yn ymddangos ar ddangosydd digidol eich boeler neu drwy larwm arall. Weithiau, bydd y boeler yn gwneud sŵn byrlymu.

**2. Dod o hyd i'r rhwystr**

Mae'n debygol bod y bibell wedi rhewi yn y man mwyaf agored neu ble mae rhyw rwystr i'r llif; gallai fod ym mhen agored y bibell, neu wrth blyg neu blygiad. Dylech allu ddod o hyd i'r rhwystr yn gyflym trwy redeg eich dwylo dros y bibell hyd nes i chi ddod o hyd i ran sy'n teimlo'n oerach na'r gweddill.

**3. Dadmer y bibell**

Gallwch ddadmer y bibell trwy roi potel dŵr poeth, pecyn gwres i'w gynhesu yn y ficrodon, neu gadachau wedi'u socian mewn dŵr cynnes, ar y bibell yn agos ar ble mae'r rhwystr. Gallwch hefyd arllwys dŵr cynnes arno o gan dŵr neu gynhwysydd arall - peidiwch â defnyddio dŵr berw.

Peidiwch â cheisio dadmer pibell gyddwyso na allwch ei chyrraedd yn hawdd o lefel y llawr. Hefyd, byddwch yn ymwybodol y gall unrhyw ddŵr a ddefnyddir rewi'n gyflym ar lwybrau, gan achosi perygl llithro.

**4. Ail-ddechrau eich boeler**

Ar ôl i'r rhan sydd wedi rhewi doddi a chlirio, gwiriwch lawlyfr eich boeler i gael cyfarwyddiadau ar sut i ailosod eich boeler yn gywir. Dylai eich boeler ail-ddechrau nawr. Os na fydd eich boeler yn ail-ddechrau, bydd angen i chi ffonio ein tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai.

**Sut i atal y bibell gyddwyso rhag rhewi**

Os nad yw'ch pibell gyddwyso eisoes wedi'i insiwleiddio, lapiwch hi mewn hen dywelion ar unwaith i'w hatal rhag rhewi eto. Yn ystod amodau tywydd eithafol, efallai na fydd inswleiddiwr cywir yn ddigonol i atal y bibell gyddwyso rhag rhewi. Gall helpu i redeg eich boeler dros dro â thermostat y boeler wedi'i osod mor uchel â phosibl, trwy gydol y cyfnod oer. Os byddwch yn parhau i gael problemau, mae'n well ffonio ein tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai i gael help.





# Trawsnewid cartrefi, bywydau a chymunedau

Yn ogystal â thrawsnewid cartrefi tenantiaid, mae ein rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) hefyd yn trawsnewid bywydau a chymunedau.

Rydym ni wedi buddsoddi dros £150 miliwn ers dechrau'r rhaglen. Mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at greu 43 o swyddi parhaol, 58 o brentisiaethau a 44 o gyfleoedd lleoliad gwaith, yn ogystal â chefnogi a darparu cyfleoedd ehangu i fusnesau lleol.

Mae cymunedau hefyd yn cael eu trawsnewid diolch i'n rhaglen gwella amgylcheddol SATC, gwerth £10.6 miliwn, sydd â'r nod o sicrhau bod cartrefi wedi cael eu lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel. Gallai'r gwaith a gyflwynir fel rhan o'r rhaglen hon gynnwys unrhyw beth o atgyweiriadau i lwybrau a waliau cymunedol, i offer chwarae newydd neu fesurau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gwelliannau ffisegol i gartrefi a gyflwynir trwy'r rhaglen, gan gynnwys ailwampio allanol a mewnol, wedi helpu i wella diogelwch, iechyd a lles tenantiaid. Mae nifer o gartrefi wedi elwa ar welliannau i effeithlonrwydd ynni hefyd; sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella'r amgylchedd trwy allyriadau carbon is.

Mae SATC hefyd yn cynnwys gofyniad y dylai pob cartref fodloni anghenion penodol aelwydydd unigol. Er mwyn ateb y gofyniad hwn, rydym ni wedi cyflwymo amrywiaeth o addasiadau i gartrefi tenantiaid i helpu hyrwyddo byw'n annibynnol. Ers dechrau'r rhaglen, mae oddeutu 6,500 o addasiadau wedi cael eu darparu.

Mae cartref Jennifer a David Holmes ym Medwas, Caerffili yn un o'r eiddo a wnaeth elwa'n ddiweddar ar addasiadau yn sgil y rhaglen. Dyluniwyd y gwelliannau o gwmpas anghenion penodol y cwpwl, gan gynnwys cegin newydd ac ystafell wlyb, sy'n bodloni Safonau 'Visibly Better' yr RNIB. Dywedodd Mrs Holmes, "Mae gen i nam ar fy ngolwg, ac fe wnaeth y tîm helpu i gynghori fy ngŵr, David, ar ba liwiau fyddai'n fwyaf addas ar gyfer fy anghenion yn y gegin a'r ystafell ymolchi. Dyluniwyd y ddau i fod yn addas ar gyfer fy nghyflwr, ac rydym ni'n hapus iawn â'r canlyniad. Anfonom lythyr i ddweud diolch wrth y gweithwyr am eu holl waith caled."



Mr a Mrs Holmes



# Beth yw Credyd Cynhwysol?

Os nad ydych chi'n gweithio neu eich bod chi ar incwm isel a bod angen help arnoch gyda'ch costau byw, gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

Cyflwynwyd y Credyd Cynhwysol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 5 Medi. Mae'n diddymu'r Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceiswyr Gwaith (ar sail incwm), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ar sail incwm), Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

**Beth sydd wedi newid?**

Y prif newidiadau i'r rhan fwyaf o bobl yw:

- Mae'n un taliad budd-dal
- Caiff ei dalu'n fisol i mewn i gyfrif banc
- Rydych chi'n ei hawlio ar-lein
- Mae gennych chi eich cyfrif ar-lein eich hun
- Caiff yr arian ei dalu'n uniongyrchol i chi, nid eich landlord, yn y rhan fwyaf o achosion

**Sut i wneud cais**

Caiff Credyd Cynhwysol ei hawlio a'i reoli ar-lein. Gallwch wneud cais yma: www.understandinguniversalcredit.gov.uk

Byddwch angen cyfrif banc i allu hawlio Credyd Cynhwysol.

Os nad oes gennych chi fynediad at y rhyngrwyd neu os nad ydych chi'n hyderus yn defnyddio cyfrifiaduron, yna gallwch chi fynd i'ch llyfrgell leol.

Os oes gennych unrhyw faterion sy'n ei gwneud hi'n anodd defnyddio'r ffôn neu wneud cais ar-lein, gall eich Hyfforddwr Canolfan Waith gynnig cymorth i chi.

**Talu eich rhent**

O dan Gredyd Cynhwysol, bydd eich costau tai yn cael eu talu'n uniongyrchol i chi, nid eich landlord, h.y. ni. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi dalu eich rhent o'r taliad Credyd Cynhwysol y byddwch yn ei dderbyn bob mis.

I wneud talu eich rhent yn haws, gallwch sefydlu debyd uniongyrchol. Yn ogystal ag arbed amser ac ymdrech, os sefydlwch ddebyd uniongyrchol, byddwch yn cael un taliad o £20, a fydd yn cael ei gredydu i'r cyfrif rhent.

Gallwch sefydlu debyd uniogyrchol trwy lawrlwytho ffurflen o'n gwefan. Chwiliwch am 'Talu eich rhent' ar www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch ein Tîm Rhent ar 01443 811450 neu ebostiwch rhenti@caerffili.gov.uk.

# Y Cyngor yn ennill Gorchymyn Cau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ym mis Medi, llwyddom i ennill Gorchymyn Cau ar gyfer un o'n heiddo.

Y Gorchymyn yw'r cyntaf o'i fath ar gyfer y cyngor o ran mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud ag ymwelwyr.

Gwnaed cais am Orchymyn Cau mewn ymateb i broblemau yr oedd y gymuned leol yn eu dioddef oherwydd ymwelwyr â'r eiddo, gan gynnwys ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.

Cyflwynwyd yr Hysbysiad Cau ar 12 Medi 2018 a chynhaliwyd Gwrandawiad Llys ar gyfer y Gorchymyn Cau yn Llys yr Ynadon Casnewydd ar 13 Medi 2018. Darparwyd tystiolaeth ar gyfer y Gorchymyn gan swyddogion y cyngor a'r Heddlu.

Mae'r Gorchymyn Cau yn caniatáu i'r preswylwyr aros yn yr eiddo, ond mae'n eithrio pob unigolyn arall, oni bai y cânt eu hawdurdodi i fynd i mewn i'r eiddo, fel swyddogion y cyngor, personél iechyd, yr Heddlu, ac ati. Mae'r Gorchymyn yn para am 3 mis, ond gellir ei ymestyn am 3 mis arall, os caiff ei ganiatáu gan y llys.

Dywedodd y Cynghorydd Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor ar gyfer Cartrefi a Lleoedd, "Gwnaed penderfyniad i wneud cais am Orchymyn Cau o ganlyniad i'r Cyngor yn gweithio gyda'i asiantaethau partner i ddod o hyd i ateb i'r effaith negyddol yr oedd yr eiddo hw yn ei gael ar y gymuned ehangach. Rydym ni'n croesawu penderfyniad y llys i ganiatáu'r gorchymyn, a fydd yn atal unrhyw ddigwyddiadau niwsans eraill yn yr eiddo hwn."

# Ennill gwobrau yn ystod yr hydref!

Yn ystod yr hydref, enillodd y prosiect cam-drin domestig, 'Rhydd o Ofn', a ddatblygom gyda darparwyr tai ledled Gwent Wobr Creu Creadigrwydd Pat Chown, gan Gartrefi Cymunedol Cymru. Mae'r wobr hon yn dathlu arloesedd ym maes tai, ac mae wedi cael ei henwi er cof am Pat Chown; a oedd yn unigolyn arwyddocaol yn sector tai Cymru a oedd yn ymroddedig i ffyrdd newydd o weithio.

Fe wnaethom ni hefyd gyrraedd rownd derfynol Gwobrau cenedlaethol Gwasanaeth APSE eleni hefyd. Enwyd ein rhaglen adfywio lwyddiannus yn Rowan Place, Rhymni, ar y rhestr fer ar gyfer 'Menter Tai, Adfywio neu Adeiladau Newydd Gorau'. Hefyd, cyrhaeddodd gweithlu mewnol Cartrefi Caerffili, sydd wrthi'n cyflwyno ein rhaglen gwella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gwerth £220 miliwn, y rownd derfynol ar gyfer y categori 'Tîm gwasanaeth gorau: Gwasanaeth Adeiladwaith ac Adeiladu'.

Mae Gwobrau Gwasanaeth Blynyddol APSE bellach yn eu deunawfed blwyddyn yn dathlu'r gorau o ran y llywodraeth leol.




John Chown, Kay Helyar (Tai Charter), Abbie Clifford (Tai Cymunedol Bron Afon) a Rachel Thornett (Cartrefi Caerffili).



Staff gyda thystysgrifau APSE.

# Gwella amgylcheddol

Mae llawer o weithgarwch wedi bod yn digwydd ledled y fwrdeistref sirol yn ystod y misoedd diwethaf fel rhan o raglen Gwella Amgylcheddol SATC. Yn ogystal â pharhau i ymgynghori â chymunedau lleol ar brosiectau posibl, mae nifer o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ac mae gwelliannau ar waith.

Rydym ni hefyd wedi cwblhau nifer o brosiectau, gan gynnwys ffensys a lleoedd parcio newydd yn Greensway yn Abertyswg, lleoedd parcio newydd ym Mhenyrheol, a gwelliannau i gylchfannau ym Mharc Churchill.

Dechreuwyd ar waith gwella yn ddiweddar ym mharc sgrialu yn Tŷ Sign, Rhisga. Mae'r parc sgrialu wedi cael ei ariannu ar y cyd rhwng rhaglen gwella amgylcheddol SATC a Grŵp Cymunedol Chwarae a Dysgu Rhisga.



Gwaith gwella ym mharc sgrialu Rhisga.



Cylchfan wedi'i chwblhau ym Mharc Churchill, Caerffili.

# A oes gennym ni eich manylion cyswllt?

Os nad ydych chi wedi rhoi eich manylion cyswllt i ni'n ddiweddar, neu os byddant yn newid yn y dyfodol, peidiwch ag anghofio rhoi gwybod i ni er mwyn i ni allu diweddaru ein cofnodion. Cysylltwch â'ch swyddfa tai leol, trwy anfon neges e-bost at cyfranogiadtenantiaid@caerffili.gov.uk neu dychwelwch y ffurflen isod at Dîm Cynnwys Tenantiaid a'r Gymuned, Tai'r Sector Cyhoeddus, Blwch Post 129, Hengoed, CF82 9BQ.

Enw

Cyfeiriad

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

Rhif ffôn llinell dir

***Sylwer y gall gymryd hyd at 28 diwrnod i'ch manylion gael eu diweddaru ar ein systemau.***

*Er ein bod ni'n gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn yn gywir, gall pethau fod yn anghywir weithiau; gwiriwch gyda ni'n gyntaf bob amser!*